**John Griffiths AC /AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
**Minister for Environment and Sustainable Development**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JG/05638/11

David Melding AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
David.melding@wales.gov.uk

21 Gorffennaf 2011

Annwyl David,

**CS11 – Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mehefin yn tynnu fy sylw at adroddiad y Pwyllgor ar Offerynnau Statudol a fu'n ystyried Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011, ("y Rheoliadau") ar 22 Mehefin 2011.

Rwy'n nodi bod y Pwyllgor wedi adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 ar y sail nad yw o bwys gwleidyddol na chyfreithiol nac yn arwain at faterion o bolisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Mae'r adroddiad sydd ynghlwm yn mynd ymlaen i gynnwys adroddiadau ar faterion 'technegol' yn ogystal â 'rhagoriaethau'.

Gan ystyried yr adroddiad technegol yn gyntaf, nododd y Pwyllgor na chafodd y Rheoliadau eu gwneud yn ddwyieithog. Ymateb y Llywodraeth oedd nad oedd yn rhesymol nac yn ymarferol i wneud y rheoliadau'n ddwyieithog, gan fod y Rheoliadau yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo yn Senedd y DU. Mae hyn yn hen arfer. Er y gallai fod achosion lle mae Senedd y DU wedi ystyried offerynnau yr oedd rhannau ohonynt yn Gymraeg, er enghraifft mewn perthynas â rhagnodiad ffurflenni, ni wn i am unrhyw enghraifft lle mae Offerynnau Statudol cyffredinol sy'n gymwys i Gymru a Lloegr fel ei gilydd wedi'u gwneud yn ddwyieithog.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn yr achos hwn, hyd yn oed pe byddai'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru ar eu pennau eu hunain, fe fyddent wedi gwneud darpariaeth sy'n croesi'r ffin, oherwydd y ffordd y mae pwerau Gweinidogol wedi'u datganoli mewn perthynas â'r diwydiant dŵr, sy'n golygu y byddai angen cymeradwyaeth Senedd y DU hyd yn oed wedyn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dylwn bwysleisio, lle mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud deddfwriaeth ar gyfer Cymru, y rhagdybiaeth bob tro fydd bod y pŵer yn cael ei arfer drwy Offeryn Statudol sy'n berthnasol i Gymru yn unig, oni bai fod rhesymau da i weithredu fel arall. Serch hynny, tybir ei fod yn ddefnydd effeithiol o adnoddau i Weinidogion Cymru gadw'r opsiwn i wneud gorchmynion cyfansawdd lle mae'r pwnc yn hawlio hynny. Enghraifft o hynny fyddai amgylchiadau lle mae angen cyfundrefn orfodi gyffredin neu lle mae angen gweithredu mewn modd cyson.

Gan droi at y pwyntiau 'rhagoriaeth', rwy'n ddiolchgar bod y Pwyllgor wedi tynnu sylw at arwyddocâd y Rheoliadau hyn, ac wedi cydnabod y gwall yn y Memorandwm Esboniadol. Nid oes gennyf unrhyw beth arall i'w ychwanegu at ymateb y Llywodraeth a nodwyd yn eich adroddiad.

Yn gywir,

**John Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development